# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mercher, 16 Medi 2015 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Raymond Bartley (Cadeirydd), Brian Blakeley, Joan Butterfield, Bill Cowie, Meirick Davies, Huw Hilditch-Roberts, Rhys Hughes, Pat Jones, Barry Mellor, Win Mullen-James (Is-Gadeirydd), Bob Murray, Dewi Owens, Pete Prendergast, Arwel Roberts, Anton Sampson, David Simmons, Julian Thompson-Hill, Joe Welch, Cefyn Williams a Huw Williams

Aelodau Lleol – mynychodd Martyn Holland a Huw Jones ar gyfer yr eitemau penodol hynny a oedd yn ymwneud â'u wardiau hwy.

Mynychodd y Cynghorydd David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus, ar gyfer eitemau 5-9 ar y rhaglen.

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (GB); Prif Gyfreithiwr – Cynllunio a Phriffyrdd (SC); Rheolwr Datblygu (PM); Swyddog Cynllunio (DS); Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai (AL); Uwch Beiriannydd, Trafnidiaeth a Chludiant (MP) a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Ian Armstrong, Jeanette Chamberlain-Jones, Richard Davies, Stuart Davies, Alice Jones, Peter Owen, Merfyn Parry, Pete Prendergast, Bill Tasker a Cheryl Williams

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad personol na chysylltiad sy'n rhagfarnu.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chafwyd unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf 2015.

Tudalen 16 – Rhif Cais 05/2015/0040/PF tir oddi ar Lôn Werdd, Corwen – mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Meirick Davies, dywedodd y swyddog cynllunio ei fod yn aros am ragor o fanylion ar y mesurau lliniaru llifogydd cyn cysylltu â'r aelodau lleol ynghylch yr amodau cynllunio i'w gosod.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf, 2015 fel cofnod cywir.*

**CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU (EITEMAU 5 - 9) -**

Cyflwynwyd ceisiadau oedd yn ceisio penderfyniad y pwyllgor ynghyd â'r dogfennau cysylltiol. Cyfeiriwyd hefyd at yr wybodaeth a gyflwynwyd yn hwyr (taflenni glas) a dderbyniwyd ar ôl cyhoeddi'r rhaglen ac yn ymwneud â'r ceisiadau penodol. Er mwyn caniatáu ceisiadau aelodau'r cyhoedd i gyflwyno sylwadau cytunwyd y dylid amrywio trefn rhaglen y ceisiadau fel y bo'n briodol.

**5 CAIS RHIF 05/2015/0353/PF - PEN Y GRAIG (DE-ORLLEWIN I BLAS TIRION) GLYNDYFRDWY, CORWEN**

Cyflwynwyd cais i ailddechrau defnydd preswyl o annedd ar gyfer deiliadaeth anghenion lleol a chodi estyniad ym Mhen y Graig (de-orllewin Plas Tirion) Glyndyfrdwy, Corwen.

**Siaradwyr Cyhoeddus -**

Mr. B. Dewey **(o blaid)** – Esboniodd gysylltiadau'r teulu gyda'r ardal, eu cymhwysedd ar gyfer tai fforddiadwy, diffyg tai fforddiadwy yn yr ardal a manylion am yr adeilad arfaethedig i'w adfer. Cyfeiriodd at ymdrechion i farchnata'r eiddo yn unol â pholisi a thynnodd sylw at ei anaddasrwydd ar gyfer defnydd masnachol.

**Trafodaeth gyffredinol –** Crynhodd y swyddog cynllunio (PM) yr adroddiad a materion polisi perthnasol a arweiniodd at yr argymhelliad i wrthod y cais. Roedd swyddogion wedi ystyried bod defnydd preswyl o'r eiddo wedi cael ei roi o'r neilltu ac yn groes i brofion polisi HEG 4 o'r Cynllun Datblygu Lleol, ni fu unrhyw dystiolaeth bod yr eiddo wedi cael ei farchnata ar gyfer defnydd masnachol ac nad oedd unrhyw wybodaeth ariannol wedi cael ei ddarparu i asesu a fyddai'r annedd yn fforddiadwy ar gyfer angen lleol. Roedd Aelodau wedi clywed gan y siaradwr cyhoeddus bod rhyw ymgais wedi'i wneud i farchnata'r eiddo ac o ystyried ei leoliad derbyniwyd y byddai'n anodd ailddefnyddio'r adeilad at ddibenion masnachol. Fodd bynnag, y brif sail dros wrthod oedd y mater o angen lleol am dai fforddiadwy. Pe bai Aelodau o blaid rhoi caniatâd i'r cais dylid ystyried sut y gellid rheoli'r eiddo yn y dyfodol ar gyfer angen lleol am dai fforddiadwy yn hytrach na'i werthu ar y farchnad agored i rywun o du allan i'r ardal. Cadarnhaodd swyddogion na chodwyd unrhyw bryderon penodol ynghylch yr estyniad a'r elfennau dylunio.

Siaradodd y Cynghorydd Huw Jones (Aelod lleol) o blaid y cais a darparodd sicrwydd bod yr ymgeisydd yn fodlon derbyn amod i sicrhau dyfodol fforddiadwy yr eiddo ar gyfer angen lleol. Cyfeiriodd at amgylchiadau'r teulu a'u cysylltiadau â'r ardal, gan dynnu sylw at y diffyg tai fforddiadwy presennol a rhinweddau adfer yr adeilad adfeiliedig ar gyfer defnydd preswyl.

Yn ystod y ddadl roedd yr Aelodau'n cydymdeimlo â'r cais yn amlygu pwysigrwydd tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol. Tynnwyd sylw hefyd at y manteision o adfer yr eiddo o ran estheteg ac effaith weledol ac ar gyfer defnydd gwerth chweil

yn hytrach na gadael iddo ddirywio ymhellach. Cyfeiriwyd at geisiadau blaenorol wrth ystyried materion cynllunio tebyg a'r angen i ddefnyddio ymagwedd gyson a synnwyr cyffredin. Roedd llawer o drafodaeth yn canolbwyntio ar yr elfen tai fforddiadwy a rhoddodd y swyddogion eglurhad ar faterion penodol fel a ganlyn –

- Roedd y cais ar gyfer meddiannaeth anghenion lleol ac ni ellid rhoi caniatâd cynllunio drwy ddileu'r elfen honno
- Cyfeiriwyd at gymhwysedd â'r broses asesu ar gyfer tai fforddiadwy lleol ynghyd â pholisi a chanllawiau cysylltiad lleol
- Cadarnhawyd yn absenoldeb amod i sicrhau dyfodol yr eiddo i ddiwallu angen lleol am dai fforddiadwy, gellid gwerthu'r eiddo ar y farchnad agored i brynwr o du allan i'r ardal
- Pe bai'r cais yn cael ei ganiatáu gyda chymal tai fforddiadwy, ni fyddai'n atal yr ymgeisydd rhag gwneud cais i gael yr amod honno wedi'i dileu yn y dyfodol pe dangoswyd nad oedd bellach angen lleol am dai fforddiadwy.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Meirick Davies at y sylwadau hwyr a dderbyniwyd oddi wrth y Cydbwyllgor AHNE a chynigwyd, pe bai'n cael ei ganiatáu, bod amod yn cael ei rhoi yn unol â'r argymhellion ynglŷn â'r grisiau y credai a fyddai'n cyd-fynd yn well â'r amgylchoedd. Nid oedd dim eilydd ar gyfer y cynnig hwnnw.

**Cynnig –** Cynigodd y Cynghorydd Cefyn Williams, bod y cais yn cael ei ganiatáu gydag amod i sicrhau dyfodol yr eiddo ar gyfer angen lleol am dai fforddiadwy, eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Arwel Roberts.

**PLEIDLAIS:**
CYMERADWYO - 18
GWRTHOD - 0
YMATAL - 1

***PENDERFYNWYD*** *y dylid* ***CYMERADWYO'R*** *cais**,** yn groes i argymhelliad y swyddog, gydag amod i sicrhau dyfodol yr eiddo ar gyfer angen lleol am dai fforddiadwy am y rheswm y bydd yn diwallu angen lleol am dai fforddiadwy.*

## 6 CAIS RHIF 18/2014/1164/PS – PARK HIGHFIELD, LLANGWYFAN, DINBYCH

Cyflwynwyd cais ar gyfer amrywio amod rhif 12 o god caniatâd cynllunio rhif 18/2012/1595 i ganiatáu 2 bwynt mynediad i aros ar agor ym Mharc Highfield, Llangwyfan, Dinbych.

**Siaradwyr Cyhoeddus -**

Ms. G. Butler (**yn erbyn**) – siaradodd Ms Butler ar ran trigolion lleol gan ddweud bod eu hofnau diogelwch ffyrdd dros y defnydd o fynedfeydd dros dro wedi eu cyfiawnhau ac adroddodd am y peryglon a achosir gan symudiadau traffig yn y ddau bwynt mynediad.

Mr. A. Armstrong (**o blaid**) - soniodd am gynllun y ffordd a'r rhesymu dros gadw'r ddau bwynt mynediad mân sydd ddim ond yn cyfrif am tua 3 - 4% o symudiadau

traffig gydag uchafswm o wyth lle parcio er mwyn gwasanaethu dau adeilad a chaniatáu mynediad brys.

**Trafodaeth** gyffredinol – yn absenoldeb y Cynghorydd Merfyn Parry (Aelod lleol), siaradodd y Cynghorydd Joe Welch ar ei ran a chyfeirio at e-bost a anfonwyd at Aelodau'r Pwyllgor yn rhoi manylion am ei bryderon. Er y cydnabuwyd y gwaith a'r buddsoddi a ddarparwyd gan yr Ymgeisydd, gwireddwyd yr ofnau diogelwch a fynegwyd ar adeg y cais gwreiddiol, ac roedd y ddwy fynedfa dros dro wedi cael eu camddefnyddio yn ystod y gwaith adeiladu. Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd gyda rheolwyr Parc Highfield, ond nid yw'r sefyllfa wedi gwella. Roedd yr ymgeisydd wedi dweud y dylid cadw mynediad D oherwydd roedd yn dir dan glo – gellid bod wedi osgoi hyn yn y datblygiad – a gallai'r safle weithredu'n dda heb gadw'r mynedfeydd dros dro. O ganlyniad, cynigiodd Joe Welch y dylid gwrthod y cais, a chafodd hyn ei eilio gan y Cynghorydd Dewi Owens.

Amlygwyd safleoedd mynedfeydd A, B, C a D ar y cynlluniau a ddarparwyd ac eglurodd yr Uwch Beiriannydd, Traffig a Chludiant sut y rheolwyd y llif traffig ledled y safle. Adroddodd bod Mynediad C i'w ddefnyddio ar gyfer Pine Cottage a Rose House yn unig gyda gwell gwelededd, arwyddion priodol a rheolaeth traffig ar waith. Roedd cysylltiad drwodd i'r prif safle o Fynedfa C ac er iddo awgrymu gosod rhwystr codi ar gyfer mwy o reolaeth, nid oedd hyn wedi'i dderbyn gan yr ymgeisydd. Fodd bynnag ystyriwyd nad oedd yn ddigon o reswm dros wrthod o ystyried y mesurau rheoli traffig eraill. Byddai'r mynediad D yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cerbydau cynnal a chadw yn unig heb unrhyw gysylltiad uniongyrchol i'r prif safle ar gyfer staff. Roedd swyddogion yn ystyried y mynedfeydd hynny yn dderbyniol o ran polisïau a chanllawiau perthnasol.

Ystyriodd yr aelodau'r pryderon diogelwch ffordd ynghyd â'r mesurau rheoli a oedd ar waith i ymateb i'r pryderon hynny. Mynegwyd amheuon ynghylch effeithiolrwydd y mesurau rheoli a'u gorfodaeth, yn enwedig o gofio nad oedd y mynedfeydd dros dro eisoes yn cael eu camddefnyddio, mae'n debyg heb gosbau, ac o glywed bod pryderon cychwynnol trigolion lleol wedi'u gwireddu, er gwaethaf sicrwydd i'r gwrthwyneb. Dywedodd yr Uwch Beiriannydd bod traffig wedi bod yn hynod brysur yn ystod y cyfnod adeiladu a chadarnhawyd na fu unrhyw ddamweiniau wedi'u cofnodi. Tynnodd sylw at y diffyg tystiolaeth i gyfiawnhau gwrthod yn yr achos hwn o gofio'r mesurau lliniaru a'r cynllun rheoli traffig.

**Cynnig –** Cynigodd y Cynghorydd Joe Welch wrthod y cais ar sail diogelwch ffyrdd a threfoli tir gwledig, a chafodd hyn ei eilio gan Dewi Owens.

**PLEIDLAIS:**
CYMERADWYO - 6
GWRTHOD - 12
YMATAL - 0

***PENDERFYNWYD GWRTHOD*** *caniatâd, yn groes i argymhelliad y swyddog, ar sail diogelwch ffyrdd a threfoli lonydd gwledig.*

**7 CAIS RHIF 40/2014/1445/PF - TIR YN NHŶ FRY INN, LÔN TŶ FRY, BODELWYDDAN**

Cyflwynwyd cais ar gyfer adeiladu siop gyfleus dosbarth A1 gyda pheiriant ATM, maes parcio cysylltiedig, trefniadau mynediad a thirlunio ar dir Tŷ Fry Inn, Lôn Tŷ Fry, Bodelwyddan.

Mr. T. Hallet (**o blaid**) – tynnodd sylw at fanteision economaidd a chymunedol y datblygiad a'r cydweithredu gyda'r swyddogion cynllunio a phriffyrdd i ddiwygio'r cynllun er mwyn mynd i'r afael â'r materion a godwyd.

**Trafodaeth gyffredinol –** yn absenoldeb y Cynghorydd Alice Jones (Aelod lleol), siaradodd y Cynghorydd Arwel Roberts ar ei rhan a chyfeiriwyd at e-bost a anfonwyd at aelodau'r Pwyllgor yn rhoi manylion am ei phryder dros y defnydd o Ffordd Ronaldway gan ddarparu cerbydau. Roedd y Cynghorydd Jones yn hapus i gefnogi'r datblygiad yn amodol ar roi amod ychwanegol yn cyfyngu cerbydau danfon rhag mynd i mewn i Ronaldsway o Groesffordd Borth o blaid llwybrau mwy diogel o gyfeiriad Ffordd Abergele. Ar ymadael y safle dylai cerbydau danfon droi i'r dde yn ôl ar Ffordd Abergele. Roedd yr Aelodau yn cefnogi'r cynnig er mwyn sicrhau diogelwch defnyddwyr y ffordd ar Ronaldsway a chytunodd y swyddogion y gellid cadw rheolaeth resymol dros gyfeiriad y traffig yn y modd drwy amod; byddai'r cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i gynghori sut byddai'n sicrhau cydymffurfiaeth. Rhoddodd y swyddogion sicrwydd bod rheolaethau priodol ar waith i orfodi amodau o'r fath.

Siaradodd yr Uwch Beiriannydd, Traffig a Chludiant am gynnwys yr Adran Priffyrdd. Roedd y cynlluniau wedi'u diwygio yn dilyn archwiliad diogelwch ffyrdd annibynnol ac roedd swyddogion yn fodlon bod y trefniadau mynediad arfaethedig yn dderbyniol ac roedd digon o le ar y safle ar gyfer danfon, parcio a throi. Nodwyd y pryderon a godwyd gan Gyngor Tref Bodelwyddan ond roedd swyddogion o'r farn na fyddai'r cynigion yn cael effaith annerbyniol ar y rhwydwaith priffyrdd lleol. Eglurwyd, er gwaethaf y cyfyngiad pwysau, yn gyfreithiol gallai unrhyw gerbyd masnachol ddefnyddio'r ffordd i gyrraedd unrhyw safle.

**Cynnig –** Cynigodd y Cynghorydd Arwel Roberts y dylid caniatáu'r cais yn unol ag argymhellion y swyddog yn amodol ar amod ychwanegol yn cyfyngu ar symudiadau traffig cerbydau danfon yn mynd i mewn ac allan o'r safle drwy Ronaldsway i sicrhau diogelwch defnyddwyr y ffyrdd, cafodd hyn ei eilio gan y Cynghorydd Meirick Davies.

**PLEIDLAIS:**
CYMERADWYO - 18
GWRTHOD - 0
YMATAL - 0

***PENDERFYNWYD*** *y dylid* ***CYMERADWYO'R*** *cais yn unol ag argymhellion y swyddog fel y manylir yn yr adroddiad yn amodol ar amod ychwanegol yn cyfyngu ar symudiadau traffig cerbydau danfon yn mynd i mewn ac allan o'r safle drwy Ronaldsway i sicrhau diogelwch defnyddwyr y ffyrdd.*

**8 CAIS RHIF 15/2015/0629/PF - GLAN LLYN, ERYRYS, YR WYDDGRUG**

Cyflwynwyd cais ar gyfer codi garej ar wahân yn lle'r garej presennol yng Nglan Llyn, Eryrys, yr Wyddgrug.

**Trafodaeth gyffredinol -** Doedd gan y Cynghorydd Martyn Holland (Aelod lleol) ddim gwrthwynebiad i'r cais ond cyfeiriodd at bryderon Cyngor Cymuned Llanarmon yn Iâl ynglŷn â maint y garej a'i botensial i gael ei droi'n annedd yn y dyfodol. Roedd Partneriaeth AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn argymell dylid adfer y wal ffin ffryntiad carreg naturiol fel rhan o'r datblygiad. Wrth ymateb i gwestiynau, dywedodd y Swyddog Cynllunio y byddai unrhyw newid i ddefnydd y garej yn y dyfodol yn destun cais cynllunio arall ac felly ni fyddai'n briodol i roi amod ar ei ddefnydd. Roedd y defnydd o garreg a awgrymwyd gan y bartneriaeth AHNE eisoes wedi nodi ar y cynlluniau.

**Cynnig –** Cynigodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Meirick Davies, bod y cais yn cael ei ganiatáu yn unol ag argymhellion y swyddog.

**PLEIDLAIS:**
CYMERADWYO - 17
GWRTHOD - 0
YMATAL - 0

***PENDERFYNWYD*** *y dylid* ***CYMERADWYO'R*** *cais yn unol ag argymhellion y swyddog a nodwyd yn yr adroddiad.*

**9 CAIS RHIF 43/2015/0112 /PF – CARTREF GOFAL PRESWYL HIGHCROFT, 49 RHODFA HIGHBURY, PRESTATYN**

Cyflwynwyd cais i newid defnydd o hen Gartref Gofal Preswyl/Nyrsio i 5 o anheddau hunangynhwysol yng Nghartref Gofal Preswyl Highcroft, 49 Rhodfa Highbury, Prestatyn.

**Trafodaeth Gyffredinol –** Soniodd y Cynghorydd Anton Sampson (Aelod Lleol) am ei ymweliad i'r safle ac nid oedd ganddo unrhyw wrthwynebiad i'r cais. Adroddodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill (Aelod lleol) mai parcio oedd prif wrthwynebiad y trigolion, ond nid oedd yn ystyried y byddai'r sefyllfa barcio'n waeth nag oedd pan oedd y safle'n cael ei ddefnyddio fel cartref nyrsio. Mewn ymateb i gwestiynau darparodd swyddogion cynllunio eglurhad ar y polisi tai fforddiadwy ar gyfer datblygiad o lai na 10 o uned breswyl drwy daliad swm gohiriedig. Derbyniwyd bod angen am y math o dai a gynigwyd ym Mhrestatyn ac roedd swyddogion yn awyddus i sicrhau bod safonau mannau preswyl yn cael eu bodloni.

**Cynnig** – Cynigodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill argymhelliad y swyddog i gymeradwyo'r cais, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Barry Mellor.

**PLEIDLAIS:**
CYMERADWYO - 17
GWRTHOD - 0
YMATAL - 0

***PENDERFYNWYD** y dylid **CYMERADWYO'R** cais yn unol ag argymhellion y swyddog a nodwyd yn yr adroddiad.*

Ar y pwynt hwn (11.10 am) cafwyd egwyl ar gyfer lluniaeth.

## 10 BRIFF DATBLYGU SAFLE: TŶ NANT, PRESTATYN - MABWYSIADU DOGFEN DERFYNOL

Cyflwynodd y Cynghorydd David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus a'r Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai, adroddiad yn cyflwyno'r Briff Datblygu Safle arfaethedig ar gyfer Tŷ Nant, Prestatyn i'w fabwysiadu yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. Rhoddodd y Cynghorydd Smith rywfaint o gyd-destun i'r adroddiad ac esboniodd y gwahanol gamau yn y broses cyn mabwysiadu dogfennau Canllawiau Cynllunio Atodol yn derfynol gan y Pwyllgor Cynllunio.

Roedd crynodeb o'r ymgynghoriad cyhoeddus a'r sylwadau a dderbyniwyd ynghyd ag ymateb y Cyngor wedi'u cynnwys fel atodiad i'r adroddiad. Wrth ymateb i'r sylwadau hynny cynigiwyd nifer o newidiadau a amlygwyd yn y ddogfen derfynol. Roedd yr Aelodau yn falch o nodi ymateb da i'r ymgynghoriad eang a diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith caled yn hynny o beth. Mewn ymateb i gwestiynau, eglurwyd bod y briff yn hyblyg ynglŷn â 6 – 8 Ffordd Plas Nant a oedd yn caniatáu dymchwel neu gadw ar yr amod y dylid cadw'r ffryntiad a Siambr y Cyngor os oes modd. O ran mynediad o Rodfa'r Glyn roedd byffer tirwedd wedi'i awgrymu yng nghefn yr eiddo hynny a fyddai'n caniatáu ar gyfer cadw'r mynedfeydd cefn hynny – roedd swyddogion eiddo edrych ymhellach ar y mater.

**Cynnig** – Cyfeiriodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill at astudiaeth gynhwysfawr a wnaed ac roedd yn ystyried bod yr adroddiad yn adlewyrchu'r sylwadau a dderbyniwyd yn deg. O ganlyniad, cynigiodd y dylid mynd ag argymhelliad y swyddog i fabwysiadu'r ddogfen, ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Bob Murray.

**PLEIDLAIS:**
O BLAID - 18
YN ERBYN - 0
YMATAL - 0

***PENDERFYNWYD** bod yr Aelodau'n mabwysiadu'r Briff Datblygu Drafft ar gyfer Tŷ Nant, Prestatyn, ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad, gyda newidiadau a argymhellwyd, i benderfynu ar geisiadau cynllunio ac apeliadau cynllunio.*

## 11 CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL YNNI ADNEWYDDADWY – DRAFFT YMGYNGHORI

Cyflwynodd y Cynghorydd David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus adroddiad yn cyflwyno dogfen ddrafft Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) ar ynni adnewyddadwy fel sail ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Roedd y drafft CCA yn amlinellu'r cyd-destun polisi cenedlaethol a lleol ar gyfer technolegau ynni adnewyddadwy, gwarchod tirwedd a gwarchod tir amaethyddol.

**Cynnig** – Cynigodd y Cynghorydd Meirick Davies i fynd ag argymhelliad y swyddog, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill.

**PLEIDLAIS:**
O BLAID - 17
YN ERBYN - 1
YMATAL - 0

***PENDERFYNWYD*** *bod yr Aelodau yn cytuno ar y Canllaw Cynllunio Atodol drafft ar ynni adnewyddadwy fel sail ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.*

## 12 DRAFFT YMGYNGHORI: BRÎFF DATBLYGU SAFLE - TIR GER HEN YSBYTY HM STANLEY, LLANELWY

Cyflwynodd y Cynghorydd David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus a'r Rheolwr Cynllunio a Thai Strategol adroddiad yn argymell cymeradwyo'r Briff Datblygu Safle drafft ar gyfer y safle tai a ddyrannwyd gerllaw'r hen Ysbyty HM Stanley yn Llanelwy a'r ddogfen sgrinio Asesiad Amgylcheddol Strategol ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

Yn ystod y drafodaeth cafodd y safle datblygu ei egluro fel y tir i'r de a'r tu cefn i'r hen safle ysbyty a thynnwyd sylw at y cynllun safle. Roedd ymateb Swyddogion i ymholiadau'r Aelodau fel a ganlyn:-

- Cadarnhawyd bod adeilad rhestredig yn agos at y safle a nododd y briff y byddai angen i unrhyw gynigion i gymryd hynny i ystyriaeth
- Mae'r briff hefyd yn cynghori y dylai cynigion datblygu geisio defnyddio enwau Cymraeg lleol perthnasol ar gyfer strydoedd a'r datblygiad yn gyffredinol a byddai angen Asesiad Effaith Cymunedol ac Ieithyddol ynghyd ag unrhyw gais cynllunio
- Amlinellwyd yn y briff nad oedd y safle mewn ardal perygl llifogydd.

Fel mater ar wahân, mynegodd aelodau lleol bryderon ynghylch yr enw 'Livingstone Place' a roddwyd gan ddatblygwyr i safle arall yn Llanelwy a chafwyd trafodaeth ynghylch cyfreithlondeb y broses. Cytunodd swyddogion cynllunio i ddwyn y mater i sylw'r adran berthnasol i'w drafod gyda'r datblygwr.

**Cynnig –** Cynigodd y Cynghorydd Meirick Davies y dylid mynd ag argymhelliad y swyddog, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Rhys Hughes.

**PLEIDLAIS:**
O BLAID - 18
YN ERBYN - 0
YMATAL - 0

***PENDERFYNWYD*** *bod yr aelodau'n cytuno ar y Briff Datblygu Safle ar gyfer y safle a ddyrannwyd ar gyfer tai gerllaw hen Ysbyty HM Stanley, Llanelwy a'r ddogfen sgrinio Asesiad Amgylcheddol Strategol cysylltiedig (fel ynghlwm wrth yr adroddiad) ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.*

**13 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL SIR DDINBYCH (CDLL) 2006-2021: DRAFFT ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL 2015**

Cyflwynodd y Cynghorydd David Smith, Aelod Arweiniol ar gyfer Parth y Cyhoedd yr Adroddiad Monitro Blynyddol CDLl cyntaf yn asesu'r perfformiad polisi am y cyfnod 1 Ebrill 2014 – 31 Mawrth 2015. Roedd angen i'r Cyngor lunio AMB i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref bob blwyddyn a'i gyhoeddi ar ei wefan. Byddai angen i'r Cabinet gymeradwyo'r AMB i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Roedd yr Aelodau'n falch o nodi cynnydd ymysg y trigolion yn Sir Ddinbych sy'n siarad Cymraeg ers 2006 ac mewn ymateb i gwestiynau cyfeiriodd y swyddogion at y polisi yn y CDLl sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg a'r angen i ddatblygiadau newydd lunio Asesiad Effaith Cymunedol ac Ieithyddol. Dywedodd y Swyddogion hefyd bod cyfeiriad at y Gymraeg yn y Ddeddf Cynllunio newydd ar gyfer Cymru a chytunwyd i ddarparu diweddariad amserol ar ddatblygiadau deddfwriaethol i'r Aelodau.

***PENDERFYNWYD*** *nodi cynnwys yr adroddiad.*

**ADRODDIAD GWYBODAETH – NEWIDIADAU I REOLIADAU FFIOEDD CENEDLAETHOL A CHYFLWYNO NEWIDIADAU CYNGOR CYN-YMGEISIO**

Cyflwynwyd adroddiad gwybodaeth gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn darparu aelodau gyda nodyn byr mewn perthynas â newidiadau sydd ar fin digwydd i Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd ar gyfer Ceisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) 2015. Roedd cyflwyniad diweddar ffioedd cyn-ymgeisio sy'n benodol i Wasanaeth Cynllunio Sir Ddinbych hefyd wedi cael ei gynnwys.

Ymhelaethodd swyddogion ar gynnwys yr adroddiad, ac atebwyd cwestiynau arnynt.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.20pm.